# Rhaglen Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

## Cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- nos Iau, 6ed o Hydref, 2022 yn Ystafell Myrddin Neuadd Chwilog a drwy 'Zoom', am 6:45 y.h. o flaen y prif gyfarfod.

*Ar y Pwyllgor*: Y Cynghorwyr Aled Davies, Anwen Jones, Aled Lloyd Evans, Sion Aled Jones, Tegid Jones, Sian Parry a'r Clerc.

*Ymddiheuriadau*.

Ar y rhaglen.

1. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 4ydd o Dachwedd, 2021.

2. **Cyllideb 2022/23** a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Mae taflenni wedi cael eu rhannu drwy ebost o flaen y cyfarfod, er mwyn ei cymharu gyda'r gyllideb a bennwyd.

- Y gyllideb arian /gwariant hyd at 31.03.2023 yn cael ei ddiweddaru'n fisol
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2023-2024-angen trafod

Mae rhain yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2023.

Ar 05.10.2022 roedd y symiau isod yn y 2 cyfrif:-

| **Cyfrifon** | **£** | |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 23,397.59 | Cynnwys Lightsource a Grant Cronfa Park-Jones(£2000.00) |
| Cyfrif cadw | 4,585.25 | |
| **Cyfanswm** | **27,982.84** | |

3. **Cynlluniau gwariant o rwan hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol yma.**
Mae ambell beth angen ei talu, ond nid ydym wedi cael biliau amdanynt eto, fel ag sydd ar y daflen 'excel', megis bil cae chwarae Llangybi, archwilio allanol llynedd ac eleni, torri coeden dderw ger afon Llanystumdwy.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd, tua £417.80. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2023, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

4. **Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2023-2024:-**
- Cof Eifionydd
- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern – angen gwneud hyn yn flynyddol.

- Tir y Cyngor Rhydybenllig – dim wedi ei wneud yno ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth.
- Wifi y 3 lleoliad bob blwyddyn.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – tua £300.00 bob blwyddyn.
- Diffibriliwr arall yn Chwilog?
- Archebu 9 arwydd llechen ar gyfer y pontydd eraill?
- Talu am lanhau cerrig beddi?

5. **Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol**, fferm solar Gelli Gron, Llangybi.
Derbyniwyd £4,190.38 ar 17.12.2021, a bydd swm tebyg yn cael ei dderbyn diwedd y flwyddyn yma.

Bydd angen talu am y Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Phencaenewydd.
Llynedd roedd y ffigwr yma'n £1146.49.

6**. Dewis Praesept 2023–2024** - fe godwyd y ffigwr i £18,360.00, eleni.
Bydd angen gwneud **penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn ar 01.12.2022.**

7. **Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2023.**
Llynedd talwyd £8,326.22 o'r cyfrif cyfredol, a chyfrif Lightsource (hyn yn cynnwys cyfraniad Wifi).
Mae'n anodd dweud faint o geisiadau a ddaw eleni, ond bydd angen gwneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod llawn fis Ionawr 2023.

(Uchafswm gwariant yw £8.82 x 1518 o boblogaeth o fewn cymuned Llanystumdwy = £13,388.76)